***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 9

# DIWYGIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG

## RHAN 1

## CREU SWYDDOGAETHAU CYNLLUNIO STRATEGOL AR GYFER CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG PENODOL A DIDDYMU'R PWERAU I SEFYDLU PANELI CYNLLUNIO STRATEGOL ETC.

### *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)*

44 (1) Mae Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau: cyrff cyhoeddus etc.) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, o dan y pennawd "LLYWODRAETH LEOL ETC", hepgorer y cofnod ar gyfer paneli cynllunio strategol.

(3) Ym mharagraff 2, hepgorer y diffiniad o "panel cynllunio strategol".